# 2012 Rhif 248 (Cy. 41)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gymwys i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac i ysgolion arbennig (os cynhelir hwy felly ai peidio). Maent yn darparu (ymysg pethau eraill) ar gyfer diwrnod ysgol sydd fel arfer i'w rannu'n ddwy sesiwn (gydag egwyl yn y canol), a bod ysgolion (nad ydynt yn ysgolion meithrin) yn cyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 5 yn Rheoliadau 2003 i ddarparu i hyd at bedair sesiwn yn y flwyddyn ysgol 2011-2012 gyfrif fel sesiynau pan oedd yr ysgol wedi cyfarfod os oeddent wedi eu neilltuo i wella safonau dysgu neu arferion rheoli staff yr ysgol gyda'r bwriad o wella neu asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn yr ysgol.

# 2012 Rhif 248 (Cy. 41)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Chwefror 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *2 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *24 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 24 Chwefror 2012.

**Diwygio'r Rheoliadau**

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**3**) fel a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 5, yn lle paragraff (1) rhodder—

> “(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y flwyddyn ysgol 2011-2012 sy'n cael ei neilltuo (yn llwyr neu yn bennaf) i wella

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). I gael ystyr “regulations” a “prescribed” gweler adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2003/3231 (Cy.311); fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2006/1262 (Cy.119), O.S. 2008/1739 (Cy.171) ac O.S. 2011/149 (Cy.33).

safonau dysgu neu arferion rheoli staff yn yr ysgol gyda'r bwriad o wella neu asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion mewn ysgol a gynhelir.”.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

1 Chwefror 2012